Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Rhodfa Plascrug
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 1HL

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Aberystwyth

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Aberystwyth |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 365 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 292 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 64 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 65.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 3% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/05/2023 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 26/11/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 17/03/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Gymraeg Aberystwyth yn gymuned ofalgar sy'n dathlu Cymreictod, parch a chyflawniad disgyblion yn dda. Maent yn annog disgyblion i fod yn hapus, i fwynhau eu dysgu ac i fod yn falch o'u cymuned ac o Gymru. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus i fynychu'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Mae pwyllgorau llais amrywiol yr ysgol yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau a datblygu eu medrau arwain yn effeithiol.

Mae athrawon yn ystyried syniadau disgyblion wrth gynllunio'r cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf yn cynllunio gweithgareddau ysgogol sy'n ennyn diddordeb disgyblion a sicrhau cynnydd yn eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth yn effeithiol. Mae gan lawer o athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn darparu gweithgareddau dysgu sydd yn herio'r disgyblion a'u galluogi i wneud y cynnydd gorau yn eu dysgu. Er hyn, ar adegau, nid yw ychydig o athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu sy'n cynnig digon o her i ddisgyblion.

Mae llawer o athrawon a staff eraill yn datblygu medrau disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ynghyd ag ystod eraill o fedrau mewn amrywiol feysydd dysgu. Un o gryfderau'r ysgol yw sut mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol drwy brofiadau dysgu cyfoethog.

Mae staff ar draws yr ysgol yn cynnig adborth llafar a chymorth defnyddiol i'r disgyblion wrth ymateb i'w gwaith. Er hyn, nid yw'r adborth bob amser yn helpu disgyblion i wella eu gwaith a dechrau cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod o brosesau hunanwerthuso addas i adnabod cryfderau'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r arfarniadau bob amser yn ddigon miniog i adnabod yr hyn sydd angen gweithredu arno i wella'r ddarpariaeth a chynnydd disgyblion. Mae gan y pennaeth dros dro a'r staff berthynas gadarnhaol a threfniadau cyfathrebu effeithiol â rhieni. O ganlyniad, mae rhieni'n hyderus i godi unrhyw fater all effeithio ar les a dysgu eu plant.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Cysoni arferion addysgu effeithiol ar draws yr ysgol a chodi disgwyliadau staff i ddarparu her gyson ar gyfer pob disgybl

A2. Miniogi trefniadau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant fel bod arweinwyr yn arfarnu gwaith yr ysgol yn ôl ei effaith ar gynnydd a chyflawniad disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar, gynhwysol a hapus. Mae ymdeimlad cryf o berthyn i deulu sy’n gwireddu dyhead yr ysgol i ddatblygu cymuned ddysgu effeithiol sy’n blaenoriaethu ‘Cymreictod, parchu ein gilydd, a gwneud ein gorau glas’. Mae bron bob disgybl yn mwynhau bod yn aelod o’r ysgol, ac yn gwerthfawrogi’r cyfleoedd gwerthfawr mae staff yn darparu ar eu cyfer. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu, yn mwynhau eu tasgau ac yn ymroi’n  frwdfrydig iddynt.

Mae’r pennaeth dros dro yn ymroddedig i’r ysgol ac mae ei arweinyddiaeth yn gosod cyfeiriad strategol pwrpasol i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel o’i hun ac eraill a chaiff ei gefnogi’n frwd gan yr uwch dîm arwain. Mae staff yn ymroddgar ac yn arddel gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol sy’n cyfrannu’n gadarn at ddatblygu lles a medrau disgyblion.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn cydweithio’n effeithiol i greu amgylchedd dysgu Cymreig a chroesawgar. Mae hyn yn cyfrannu’n llwyddiannus at yr ymdeimlad o gynhwysiad sy’n rhan annatod o wead y ddarpariaeth. Mae amgylchedd dysgu pwrpasol ac ysgogol yr ardal tu allan yn cael ei defnyddio’n effeithiol i gyfoethogi ac atgyfnerthu dysgu’r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw’r amgylchedd o fewn yr ystafelloedd dosbarth yn ddigon rhyngweithiol i arfogi disgyblion i ddysgu’n annibynnol.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu yn effeithiol i gefnogi'r dysgu ac yn sicrhau bod gweithgareddau'n symud ar rediad addas. Mewn llawer o wersi lle mae'r addysgu ar ei orau, mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac mae'r gweithgareddau'n herio'r disgyblion yn briodol. Maent yn holi disgyblion yn fedrus ac yn aml yn defnyddio technegau holi sy'n ymestyn a dyfnhau dealltwriaeth disgyblion ac yn adeiladu ar eu gallu i feddwl yn feirniadol. Mae hyn yn golygu bod disgyblion wedi eu cymell i gymryd rhan ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ond nid yw'r arfer hon yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o staff yn fodelau iaith effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynnig adborth llafar gwerthfawr i'r disgyblion yn ystod gweithgareddau er mwyn cynnal ac ymestyn eu dysgu. Mae hyn yn cael ei werthfawrogi gan y disgyblion ac yn eu cefnogi i wneud gwelliannau amserol i'w gwaith. Er hyn, nid yw'r adborth bob amser yn helpu disgyblion i wella eu gwaith yn ddigon effeithiol.

Mae'r cwricwlwm a ddarperir yn cwmpasu'r meysydd dysgu a phrofiad yn briodol. Mae disgyblion yn datblygu a chymhwyso'u dealltwriaeth o ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol a diwylliannol yn rheolaidd trwy ystod o destunau difyr. Mae athrawon yn ystyried syniadau disgyblion yn gyson wrth gynllunio gweithgareddau. Mae hyn yn ennyn eu diddordeb yn llwyddiannus a'r ymdeimlad o berchnogaeth dros yr hyn y maent am ei ddysgu. Cyfoethogir y profiadau dysgu ymhellach wrth wahodd ymwelwyr i'r ysgol a threfnu ymweliadau addysgol sy'n galluogi pob disgybl i ddatblygu dealltwriaeth o'u hardal leol, Cymru a'r byd ehangach.

Mae llawer o athrawon yn datblygu medrau disgyblion yn systematig ac yn raddol yn ystod gweithgareddau dysgu a thros gyfnod. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd, a digidol ynghyd ag ystod eraill o fedrau mewn amrywiol feysydd dysgu. Mae hyn yn cynnwys disgyblion y mae tlodi yn cael effaith arnynt a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Agwedd nodedig o'r ddarpariaeth yw'r ffordd y caiff medrau creadigol y disgyblion eu datblygu trwy weithgareddau dawns, cerddoriaeth a dylunio cyson:

### Ciplun: Datblygu a dathlu medrau creadigol y disgyblion drwy brofiadau dysgu'r dosbarth

Mae'r ysgol yn defnyddio arbenigeddau staff yn fedrus i ddarparu sesiynau dawns, cerddoriaeth a chelf fel rhan o brofiadau dysgu'r dosbarth. Mae bron pob disgybl yn dangos mwynhad a balchder cynhenid yn y gweithgareddau hyn. Erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, maent yn datblygu medrau aeddfed sy'n eu galluogi i greu darnau o waith celf cywrain a thrawiadol a pherfformio'n hyderus amrywiaeth o ddawnsfeydd creadigol sy'n cyd-fynd â themâu'r dosbarth.

Mae'r ysgol yn annog disgyblion i ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol a datblygu eu medrau arwain yn effeithiol. Mae'r disgyblion ar draws yr ysgol yn teimlo bod staff yn gwrando arnynt a'u bod yn datblygu eu rolau fel dinasyddion sydd yn cael gwir effaith ar fywyd yr ysgol, yn arbennig drwy gyfrwng y pwyllgorau llais amrywiol.

Mae arweinwyr yn cynllunio ac yn cyflwyno cyfleoedd dysgu proffesiynol priodol a defnyddiol i'r staff sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Er enghraifft, mae staff wedi mynychu hyfforddiant ar hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol er mwyn ymateb i anghenion yr ychydig o ddisgyblion sy'n wynebu anawsterau ymddygiadol. Mae'r strategaethau bellach yn rhan annatod o'r ddarpariaeth ymhob dosbarth ac yn meithrin disgyblion i fod yn ddinasyddion parchus sy'n ofalgar o'i gilydd.

Mae'r pennaeth dros dro a'r staff wedi sefydlu trefniadau hunanwerthuso addas ar gyfer monitro'r ddarpariaeth a chynllunio ar gyfer gwelliant. Maent yn defnyddio ystod briodol o dystiolaeth uniongyrchol er mwyn adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol ac, ar y cyfan, mae ganddynt adnabyddiaeth dda o'i gryfderau. Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol wrth graffu ar lyfrau ei gilydd a chynnal teithiau addysgu a dysgu a siarad â disgyblion, ynghyd â llywodraethwyr unigol, lle bo'n briodol. Mae'r agwedd hon yn sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o gryfderau'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau monitro yn ddigon miniog ac nid ydynt bob amser yn canolbwyntio'n ddigon craff ar arfarnu'r effaith y mae camau gweithredu'r ysgol yn ei chael ar wella'r addysgu a dysgu. Yn ogystal, nid yw llywodraethwyr yn herio'r ffordd y maent yn cyflawni'r gwaith hwn.

Mae'r berthynas gynhyrchiol sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni yn gryfder amlwg. Mae'r pennaeth dros dro yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol am newyddion a digwyddiadau'r ysgol yn amserol. Maent yn datgan bod y staff yn gwrando arnynt ac yn ymateb yn gadarnhaol i awgrymiadau. Maent yn gwerthfawrogi cael eu cynnwys ym mywyd yr ysgol drwy gynnig syniadau i themâu a chyfrannu at ddysgu eu plant.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/05/2025